

Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon
Annual Report and Accounts

Cadw: Welsh Historic Monuments
Adeilad y Goron
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Cadw: Welsh Historic Monuments
Crown Building
Cathays Park
Cardiff CF10 3NQ

1999–2000



CADW
WELSH HISTORIC MONUMENTS

Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon Annual Report and Accounts

1999–2000

Datganiad Cenhadaeth

Diogelu, cadw a hyrwyddo gwerthfawrogiad o
dreftadaeth adeiledig Cymru.

Mae'r Asiantaeth yn gyfrifol am gyflawni
dyletswyddau statudol y Cynulliad Cenedlaethol
yn ymwneud â henebion, adeiladau hanesyddol ac
ardaloedd cadwraeth. Mae'n rhoi cyngor i'r Cynulliad
Cenedlaethol ar yr holl faterion polisi sy'n ymwneud
â'r dreftadaeth adeiledig ac ar unrhyw fater arall o
bosibl y cyfeirir ato. Bydd yn hyrwyddo deddfwriaeth
lle y bo'n briodol. Ei nodau penodol yw:

- (a) Sicrhau diogelwch a chadwraeth treftadaeth
adeiledig Cymru er lles cenedlaethau heddiw
a'r dyfodol.
- (b) Cynnal a chadw a chyflwyno i'r cyhoedd
yr henebion sydd yng ngofal y Cynulliad
Cenedlaethol er mwyn iddynt eu gwerthfawrogi,
eu mwynhau a dysgu oddi wrthynt.
- (c) Ennill incwm i dalu am gostau ei gweithgareddau.

Cyflwynwyd i Gynulliad
Cenedlaethol Cymru
yn unol ag Adran 97
o Ddeddf Llywodraeth
Cymru 1998

Mission Statement

To protect, to conserve and to promote an
appreciation of the built heritage of Wales.

The Agency discharges the National Assembly's
statutory responsibilities relating to ancient
monuments, historic buildings and conservation
areas. It advises the National Assembly on all
policy issues relating to the built heritage and
on any other issues which may be referred to it.
It will promote legislation where appropriate.
Its specific aims are:

- (a) To ensure the preservation and conservation
of the built heritage in Wales for the benefit
of present and future generations.
- (b) To maintain and present to the public
for their appreciation, education and
enjoyment the monuments in the care
of the National Assembly.
- (c) To earn income to offset the costs of its activities.

Presented to the
National Assembly
for Wales pursuant
to Section 97 of
the Government of
Wales Act 1998



CADW

WELSH HISTORIC MONUMENTS

Cynnwys

Contents

1	Cyflwyniad y Prif Weithredwr	3
	Chief Executive's Introduction	3
2	Perfformiad yn Erbyn Targedau'r Asiantaeth	5
	Performance Against Agency Targets	5
3	Targedau'r Asiantaeth 2000–01	6
	Agency Targets 2000–01	6
4	Adeiladau Hanesyddol	9
	Historic Buildings	9
5	Henebion a Safleoedd Hanesyddol	15
	Historic Monuments and Sites	15
6	Cadwraeth Henebion o dan Ofal	19
	Conservation of the Monuments in Care	19
7	Cyflwyno Henebion o dan Ofal	23
	Presentation of the Monuments in Care	23
8	Adnoddau	27
	Resources	27
9	Rhagolygon ar Gyfer 2000–01	30
	Prospects for 2000–01	30
10	Y Pwyllgor Ymgynghorol	32
	Advisory Committee	32
11	Y Pwyllgor Rheoli Gweithredol	33
	Executive Management Committee	33
12	Cyfrifon ar Gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2000	35
	Accounts for the Year Ended 31 March 2000	35

Cyflwyniad y Prif Weithredwr

Chief Executive's Introduction

Roedd 1999–2000, sef y flwyddyn y sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol ac y rhoddwyd y cyfrifoldeb dros Cadw i'r Ysgrifennydd Amgylchedd newydd, yn flwyddyn dda iawn arall i'r Asiantaeth yn nhermau perfformiad yn erbyn targedau allweddol, ac rwyf yn ddiolchgar iawn i bawb a helpodd i gyflawni hynny. Cyflawnwyd neu aethpwyd y tu hwnt i un ar ddeg o blith y tri tharged ar ddeg — crystal â'n perfformiad yn y ddwy flynedd flaenorol ac ym 1995–96, ond nid crystal â 1996–97 pan gyflawnwyd pob un ohonynt.

Cyflawnwyd y targed cynnal a chadw cadwraeth (sef cwbllhau 90% o'r rhaglen a nodwyd) am y bumed flwyddyn yn olynol. Agorwyd Priordy Hwlfordd i'r cyhoedd ym mis Hydref 1999, a chychwynnwyd ar ddau proiect atgyfnerthu sylweddol yng ngogledd Cymru — gwaith atgyweirio ar Giât Burgess ym muriau tref Dinbych, a chadwraeth Hafoty, sef neuadd-dy prin yn dyddio o'r oesoedd canol ar Ynys Môn.

Cyflawnwyd ac aethpwyd y tu hwnt i'r targedau ar gyfer y rhestrau cymuned newydd (arolwg rhestru Cymru) a'r gweithrediadau cofrestru, fel ei gilydd — cwbllhawyd 80 o restrau, gan gwrdd â'r targed i'r dim, a chyflawnwyd 121 o gofrestriadau (targed 120). Datryswyd achosion rhestru ad hoc o fewn terfynau amser. Cyflawnwyd y targedau amseroldeb sy'n gysylltiedig ag achosion caniatâd hefyd, er gwaethaf cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestridig a gyfeiriwyd atom gan awdurdodau lleol — 832 ym 1999–2000, o'i gymharu â 705 y flwyddyn flaenorol. Roedd y cynnydd i'w ddisgwyd, o gofio nifer yr adeiladau a oedd yn cael eu hychwanegu at y rhestr statudol wrth i'r arolwg ddatblygu. Ymdriniwyd â cheisiadau am grant adeiladau hanesyddol a henebion o fewn y terfynau amser, felly hefyd y ceisiadau am daliadau. Yn y flwyddyn flaenorol roedd cyflwyno rhestr aros am grant adeiladau hanesyddol wedi amharu ar lîf y gwaith, ond diléwyd hon ac unionwyd y sefyllfa erbyn mis Ebrill 1999.

Ar wahân i'r targedau hyn, sy'n delio ag effeithlonrwydd a mewnbwn, mae Cadw yn anelu hefyd at gyflawni cyfran marchnad o 63% o nifer yr ymwelwyr â'r 20 safle treftadaeth uchaf yng Nghymru. Rydym yn llwyddo i ddenu 62% o'r ymwelwyr, o'i gymharu â 63% a 62.5% yn y drefn hon yn y ddwy flynedd flaenorol. Roedd methu'r targed yn siom ond dim ond o drwch blewyn y digwyddodd hyn, ac mae safleoedd Cadw yr ymwelir â hwy fwya (sef Cestyll Caernarfon a Chonwy) yn arbennig o ddibynnol ar ymwelwyr o dramor a allai fod wedi cadw draw oherwydd gwerth uchel y bunt. Ar y cyfan croesawodd Cadw 1.17 miliwn o bobl a dalodd i ymweld â'r safleoedd ym 1999–2000, 60,000 yn is na'r flwyddyn flaenorol.

Gwnaeth yr incwm o ymwelwyr yn well na'r niferoedd, gan ostwng o ddim ond £20,000, o £3.1 miliwn i £3.08 miliwn. Mae hyn yn adlewyrchu effaith y cynnydd cymharol mewn prisiau ym 1999–2000 a llwyddiant parhaus o ran gweithgarwch manwerthu. Cyrhaeddodd incwm o gynllun aelodaeth Cadw y lefel uchaf erioed a chafwyd twf mewn cyhoeddiadau hefyd. Mae Cadw'n gwario mwy ar gyflwyno'r henebion na'r

1999–2000, the year in which the National Assembly was established and the new Environment Secretary assumed responsibility for Cadw, was another very good year for the Agency in terms of performance against key targets, and I am very grateful for the help of all those who made it so. We achieved or exceeded eleven of the thirteen targets — equivalent to our performance in the two previous years and in 1995–96, although not quite up to 1996–97 when we met all of them.

The conservation maintenance target (to complete 90% of the identified programme) was achieved for the fifth year in a row. Haverfordwest Priory was opened to the public in October 1999, and two major consolidation projects got underway in north Wales — stonework repair at the Burgess Gate in Denbigh's town walls, and the conservation of Hafoty, a rare surviving medieval hall-house on Anglesey.

The targets for new community lists (the listing survey of Wales) and scheduling actions were met and exceeded respectively — 80 lists were completed, exactly on target, and 121 schedulings took place (target 120). Ad hoc listing cases were resolved within timescales. Timeliness targets associated with consent cases were also met, despite a sharp rise in the number of listed building consent applications referred to us by local authorities — 832 in 1999–2000, compared with 705 in the previous year. The increase was to be expected, given the number of structures being added to the statutory list as the survey progresses. Grant applications for both historic buildings and ancient monuments were handled within target timescales, as were the claims for payment. In the previous year the introduction of a waiting list for historic buildings grant had disrupted the workflow, but this was eliminated and the position restored by April 1999.

Apart from these targets, which deal with efficiency and throughput, Cadw also aims to achieve a market share of 63% of the number of visitors to the top twenty heritage sites in Wales. We succeeded in attracting 62% of visitors, compared with 63% and 62.5% respectively in the previous two years. Missing the target was a disappointment but the margin was small, and Cadw's most visited sites (Caernarfon and Conwy Castles) are particularly dependent upon overseas visitors who may have been deterred by the high value of the pound. Overall Cadw welcomed 1.17 million paying visitors to sites in 1999–2000, 60,000 less than in the previous year.

Income from visitors fared better than numbers, falling by only £20,000 from £3.1 million to £3.08 million. This reflects the impact of a modest price rise in 1999–2000 and continuing success in retail activity. Income from Cadw's membership scheme reached record levels and publications also made gains. Cadw spends more on presenting the monuments than we earn in income, and so it is

*Yr Ysgrifennydd Cynulliad,
Peter Law AC, Arolygydd
Henebion Cadw, Dr Sian Rees,
a Phrif Weithredwr Cadw,
Tom Cassidy, yn ystod agoriad
ffurfiol Priordy Hwlfordd,
Hydref 1999.*

*Assembly Secretary, Peter
Law AM, Cadw Inspector
of Ancient Monuments,
Dr Sian Rees, and Cadw
Chief Executive, Tom
Cassidy, at the formal
opening of Haverfordwest
Priory, October 1999.*



hyn a enillir mewn incwm, ac felly mae'n bosibl nodi 'cost net fesul ymwelydd'. Bu'n bosibl gostwng hyn i 27 ceiniog, gan fethu'r targed prawf o 25 ceiniog o drwch blewyn ond gan wella ar ganlyniadau 1998–99 yn sylweddol (33 ceiniog).

Mae'n bleser cydnabod yr help a gafodd Cadw gan fudiadau tebyg, p'un a ydynt yn ymwneud â diogelu a hyrwyddo'r dreftadaeth adeiledig neu — er engraifft, yn achos Bwrdd Croeso Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru — yn rhannu nodau cyffredin â ni mewn rhai agweddau penodol ar ein gwaith. Rydym yn parhau i adeiladu ar ein perthynas â hwy ac â'r awdurdodau lleol sy'n chwarae rhan statudol amlwg wrth ddelio â'r dreftadaeth adeiledig yng Nghymru. Unwaith eto hoffwn gydnabod y cyfraniad gwerthfawr a wnaed gan y Bwrdd Henebion a'r Cyngor Adeiladu Hanesyddol — sef ymgynghorwyr statudol y Cynlliad Cenedlaethol ar faterion treftadaeth — yn ystod y flwyddyn.

Tom Cassidy
Prif Weithredwr

possible to identify a 'net cost per visitor'. We were able to reduce this to 27 pence, narrowly missing the testing target of 25 pence, but improving on results in 1998–99 by a significant margin (33 pence).

It is a pleasure to acknowledge the help which Cadw has received from parallel organizations, whether they are involved in protecting and promoting the built heritage or — for example, in the case of the Wales Tourist Board and the Welsh Development Agency — share common aims with us in some specific aspect of our work. We continue to build on our relations with them and with the local authorities which play a prominent statutory role in dealing with the built heritage in Wales. Once again I would like to acknowledge the valuable contribution the Ancient Monuments Board and the Historic Buildings Council — the National Assembly's statutory advisers on heritage matters — have made in the course of the year.

Tom Cassidy
Chief Executive

Perfformiad yn Erbyn Targedau'r Asiantaeth

Performance Against Agency Targets

5

Targed	1999–2000	1998–99	1997–98	1996–97	1995–96	Target
Cwblhau 90% o'r rhaglen cynnal a chadw cadwraeth a gymeradwywyd	91%	91%	90.3%	91.5%	90.3%	To complete 90% of the approved conservation maintenance programme
Cwblhau 80 o restrau ailarolwg	80	81	77(75)	69(60)	62(60)	To complete 80 resurvey lists
Datrys 75% o achosion rhestru ad hoc o fewn 17 wythnos	95%	85%	90%	85%	78%	To resolve 75% of ad hoc listing cases within 17 weeks
Cwblhau 120 o weithrediadau cofrestru, y mae o leiaf 90% ohonynt yn cynnwys diogelwch ychwanegol	121 97%	122 94%	112(110) 92%	101(100) 77%	111(110) 82%	To complete 120 scheduling actions, of which at least 90% involve additional protection
Datrys 80% o achosion caniatâd adeiladau rhestredig o fewn 4 wythnos a 90% o achosion o fewn 7 wythnos	85% 92%	83% 93%	84% 90%	84% 90%	85% 91%	To resolve 80% of listed building consent cases within 4 weeks and 90% of cases in 7 weeks
Datrys 75% o achosion caniatâd henebion cofrestredig o fewn 13 wythnos a 90% o achosion o fewn 17 wythnos	88% 95%	95% 100%	91% 97%	91% 95%	93% 98%	To resolve 75% of scheduled monument consent cases within 13 weeks and 90% of cases within 17 weeks
Datrys 80% o geisiadau am grant adeiladau hanesyddol o fewn 18 wythnos	80%	75%	85%	87%	81%	To resolve 80% of historic buildings grant applications in 18 weeks
Datrys 80% o geisiadau am grant henebion o fewn 6 wythnos	82%	93%	86%	94%	96%	To resolve 80% of ancient monuments grant applications within 6 weeks
Talu 90% o geisiadau am grantiau adeiladau hanesyddol a grantiau henebion a gyflwynir yn gywir o fewn 5 wythnos o'u derbyn	92% 96%	90% 98%	93% 100%	98% 100%	86% 78%	To pay 90% of properly presented claims for historic buildings and ancient monuments grants within 5 weeks of receipt
Cyflawni cyfran marchnad o 63% o nifer yr ymwelwyr â'r ugain safle etifeddiaeth uchaf yng Nghymru	62%	63%	62.5%	64%	64%	To achieve a market share of 63% of the number of visitors to the top twenty heritage sites in Wales
Gostwng cost net fesul ymwelydd â safleoedd Cadw i 25 ceiniog ar gyfartaledd	27p	33p	35p(32p)	33p(40p)		To reduce net cost per visitor at Cadw's sites to an average of 25 pence
Gweithredu o fewn rhaglen a chyllideb costau rhedeg a ddyrrannwyd	Achieved Cyflawnwyd	Achieved Cyflawnwyd	Achieved Cyflawnwyd	Achieved Cyflawnwyd	Achieved Cyflawnwyd	To operate within allocated programme and running-cost budgets
Cyflawni enillion effeithlonrwydd o 2% o leiaf	2%	2%	2.2%	3.5%	2.5%	To achieve efficiency gains of at least 2%

Targedau'r Asiantaeth 2000–01

Agency Targets 2000–01

- | | |
|---|---|
| <ol style="list-style-type: none"> 1 Cwblhau 90% o'r rhaglen cynnal a chadw cadwraeth a gymeradwywyd. 2 Cwblhau 80 o restrau ailarolwg. 3 Datrys 75% o achosion rhestru ad hoc o fewn 17 wythnos. 4 Cwblhau 120 o weithrediadau cofrestru, y mae o leiaf 90% ohonynt yn cynnwys diogelwch ychwanegol. 5 Datrys 80% o achosion caniatâd adeiladau rhestredig hanesyddol o fewn 4 wythnos a 90% o achosion o fewn 7 wythnos. 6 Datrys 75% o achosion caniatâd henebion cofrestredig o fewn 13 wythnos a 90% o achosion o fewn 17 wythnos. 7 Datrys 80% o geisiadau am grant adeiladau hanesyddol o fewn 18 wythnos 8 Datrys 80% o geisiadau am grant henebion o fewn 6 wythnos. 9 Talu 90% o geisiadau am grantiau adeiladau hanesyddol a grantiau henebion a gyflwynwyd yn gywir o fewn 5 wythnos i'w derbyn. 10 Cyflawni cyfran marchnad o 63% o nifer yr ymwelwyr â'r ugain safle treftadaeth uchaf yng Nghymru. 11 Gostwng cost net fesul ymwelydd â safleoedd Cadw i 25 ceiniog ar gyfartaledd. 12 Gweithredu o fewn cyllidebau rhaglen a chostau rhedeg a ddyrannwyd. 13 Cyflawni enillion effeithlonrwydd o 2% o leiaf. | <ol style="list-style-type: none"> 1 To complete 90% of the approved conservation maintenance programme. 2 To complete 80 resurvey lists. 3 To resolve 75% of ad hoc listing cases within 17 weeks. 4 To complete 120 scheduling actions, of which at least 90% involve additional protection. 5 To resolve 80% of listed building consent cases within 4 weeks and 90% of cases in 7 weeks. 6 To resolve 75% of scheduled monument consent cases within 13 weeks and 90% of cases within 17 weeks. 7 To resolve 80% of historic buildings grant applications in 18 weeks. 8 To resolve 80% of ancient monuments grant applications within 6 weeks. 9 To pay 90% of properly presented claims for historic buildings and ancient monuments grants within 5 weeks of receipt. 10 To achieve a market share of 63% of the number of visitors to the top twenty heritage sites in Wales. 11 To reduce net cost per visitor at Cadw's sites to an average of 25 pence. 12 To operate within allocated programme and running cost budgets. 13 To achieve efficiency gains of at least 2%. |
|---|---|

De: Mae llawer o'r adeiladau yn Nolgellau, Gwynedd wedi elwa ar gymorth grant sydd ar gael drwy fenter y Cynlluniau Treftadaeth a Hanesyddol, a weinyddir gan Cadw: Welsh Historic Monuments ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Right: Many of the buildings in Dolgellau, Gwynedd, have benefited from grant-aid made available through the Historic Town Schemes initiative, administered jointly by Cadw: Welsh Historic Monuments and Snowdonia National Park Authority.





Adeiladau Hanesyddol

Historic Buildings

9

Amcanion

Hyrwyddo diogelu adeiladau o ddiddordeb pensaerniol neu hanesyddol arbennig drwy weithredu pwerau statudol y Cynulliad Cenedlaethol i restru adeiladau o'r fath, gweithredu gweithdrefnau caniatâd adeiladau rhestrdegig statudol a chynnig cyngor a chymorth ariannol mewn perthynas â chynnal a chadw adeiladau.

Ailarolwg Rhestru

Mae cwblhau'r ailarolwg rhestru yng Nghymru, fusel ardal gymunedol, yn dasg fawr ac mae'n ffurfio craidd cyfraniad Cadw tuag at nodi a diogelu adeiladau hanesyddol Cymru. Cyhoeddwyd wyth deg o restrau yn ystod y flwyddyn — yn union yr un fath â'n targed allweddol. Gofynnwyd i Cadw hefyd ystyried ar frys rhestru adeiladau y tybiwyd eu bod o dan fygithiad — cafwyd 132 o geisiadau am arolygu gan arwain at restru 58 o adeiladau. Datryswyd naw deg pump y cant o geisiadau o'r fath o fewn y cyfnod targed.

At ei gilydd, rhestrwyd 1,263 o adeiladau yn ystod y flwyddyn, gan ddod â'r cyfanswm i 23,571 ar 31 Mawrth 2000. Rydym yn prysur gyrraedd y nod o gyflawni ein targed o gwblhau'r arolwg cenedlaethol erbyn 2005.

Mae arolwg thematig Cadw o gapeli bron â'i gwblhau. Mae tua 269 o ardaloedd cymunedol yn cael eu harolygu er mwyn sicrhau y bydd yr holl gapeli yng Nghymru wedi'u hasesu ar gyfer rhestru erbyn diwedd eleni. Ym 1999–2000, mae'r arolwg thematig wedi arwain at restru 52 o gapeli.

Caniatâd Adeiladau Rhestredig

Datrysodd yr Asiantaeth 85% o'r achosion a gyfeiriwyd ati gan awdurdodau cynllunio o fewn 4 wythnos, gan fynd y tu hwnt i'r targed o 80% a gwella ar ei pherfformiad y llynedd o 2%. Parhaodd nifer yr achosion cyfeirio i gynyddu, a derbyniwyd 832 ym 1999–2000, o'i gymharu â 705 yn y flwyddyn flaenorol. Cafwyd 30 o geisiadau gan awdurdodau lleol (gan gynnwys 3 am ganiatâd ardal gadwraeth). Galwyd chwe achos i benderfynu arnynt gan y Cynulliad Cenedlaethol, ond mewn llawer o achosion arweiniodd trafodaeth rhwng swyddogion proffesiynol Cadw, yr ymgisydd a'r awdurdod cynllunio at newidiadau i gynigion a oedd o fudd i'r dreftadaeth.

Cysylltiadau ag Awdurdodau Lleol

Parhaodd Cadw i ymdrechu i gynnal awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau o ran treftadaeth adeiledig. Mae cyfarfodydd y Fforwm Treftadaeth Adeiledig wedi parhau ddwywaith y flwyddyn a buont yn ddefnyddiol iawn wrth gynnal deialog ag awdurdodau lleol yn ogystal â sefydliadau eraill yn gweithio yn y maes cadwraeth — Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru a Chronfa Treftadaeth y Loteri (HLF) — a wnaeth gyflwyniadau i'r grŵp. Mae swyddogion Cadw wedi cynghori awdurdodau lleol wrth baratoi a llunio cynigion yn fanwl o dan Fenter Treftadaeth Trefluniau'r HLF, ac mae wedi darparu cymorth ad hoc ar nifer o faterion ac wedi cynnal seminar rhanbarthol ar ganiatâd adeiladau rhestrdegig. Ynghyd ag Adran Tai'r

Objectives

To promote the preservation of buildings of special architectural or historic interest through the exercise of the National Assembly's statutory powers to list such buildings, the operation of statutory listed building consent procedures and the provision of advice and financial assistance in relation to the maintenance of buildings.

Listing Resurvey

Completion of the listing resurvey of Wales, community area by community area, is a major undertaking and forms the core of Cadw's contribution towards the identification and protection of the Principality's historic buildings. Eighty lists were published in the course of the year — exactly equivalent to our key target. Cadw was also asked to consider urgently for listing buildings which were deemed to be under threat — 132 requests for inspection were received and these resulted in the listing of 58 buildings. Ninety-five per cent of such requests were resolved within the target period.

In all, 1,263 buildings were listed in the year, bringing the total to 23,571 at 31 March 2000. We are on target to see the national resurvey completed by 2005.

Cadw's thematic survey of chapels is near completion. Some 269 community areas are being surveyed to ensure that all chapels in Wales will have been assessed for listing by the end of this year. In 1999–2000, the thematic survey resulted in the listing of 52 chapels.

Listed Building Consents

The Agency resolved within 4 weeks 85% of the cases referred to it by planning authorities, again exceeding the target of 80% and improving by 2% on its performance last year. The number of referrals continued to rise, with 832 received in 1999–2000, compared with 705 in the previous year. Applications from local authorities themselves stood at 30 (including 3 for conservation area consent). Six cases were 'called-in' for determination by the National Assembly, but in many other cases discussion between Cadw's professional officers, the applicant and the planning authority led to alterations in proposals which were of benefit to the heritage.

Links with Local Authorities

Cadw maintained its effort to support local authorities in fulfilling their duties with regard to the built heritage. Twice-yearly meetings of the Built Heritage Forum have continued and have been useful in maintaining a dialogue with local authorities as well as other organizations working in the field of conservation — the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales, the Civic Trust for Wales and the Heritage Lottery Fund (HLF) all made presentations to the group. Cadw officials have advised local authorities in the preparation and fine-tuning of bids under the HLF's Townscape Heritage Initiative, provided ad hoc help on a number of issues and held a regional seminar on listed building consents.

Chwith: *Tu mewn i eglwys y plwyf, Ewenni a adnewyddwyd yn helaeth gyda chymorth grant gan Cadw a Chronfa Treftadaeth y Loteri. Mae eglwys y plwyf yng nghorff yr eglwys Fenedictaidd. Ochr ddwyreiniol yr eglwys hon sydd yng ngofal Cadw (drwy ganiatâd y Periglor a Wardeiniaid yr Eglwys).*

Left: *The interior of Ewenny parish church, which has been extensively refurbished with grant-aid from Cadw and the Heritage Lottery Fund. The parish church occupies the nave of the Benedictine priory church, the eastern end of which is in the care of Cadw (By permission of the Incumbent and Churchwardens).*

Mae cyfarfodydd y Fforwm Treftadaeth Adeiledig, a gynhelir ddwywaith y flwyddyn wedi bod yn ddefnyddiol o ran cynnal dialog gydag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sy'n gweithio ym maes cadwraeth.

Twice-yearly meetings of the Built Heritage Forum have been useful in maintaining a dialogue with local authorities and other organizations working in the field of conservation.



Cynlliad, trefnodd Cadw gynhadledd er mwyn i awdurdodau lleol drafod y ffordd orau o ymgorffori'r defnydd o ddeunyddiau traddodiadol mewn cynlluniau atgyweirio tai.

Grantiau Adeiladau Hanesyddol

Mae argaeledd parhaus grantiau tuag at gostau atgyweirio ar gyfer adeiladau hanesyddol pwysicaf Cymru a thuag at atgyweiriadau a fydd yn gwella ardaloedd cadwraeth yn weledol yn elfen allweddol o'r cymorth yma'r Asiantaeth yn ei roi i'r dreftadaeth. Yng ngoleuni ymgynghoriad, mae Cadw wedi bod yn llunio trefniadau diwygiedig ar gyfer gweinyddu grantiau adeiladau hanesyddol. Bydd y rhain yn canolbwytio ar ardaloedd o flaenoriaeth, yn arbennig ar adeiladau pwysig sydd mewn pergl o gael eu colli, a bydd yn caniatâu ar gyfer mwya o eglurder ac atebolrwydd yn y broses o wneud penderfyniadau. Dylai'r trefniadau newydd fod yn eu lle yn 2000-01.

Yn ystod y flwyddyn, ystyriwyd 189 o geisiadau am gymorth a gwnaed 86 o gynigion grant. Gwerth y grantiau a gynigiwyd ym 1999-2000 oedd £1.95 miliwn a chyfanswm y grant a neilltuwyd (ond nas talwyd) ar 31 Mawrth 2000 oedd £3.06 miliwn.

Derbyniodd perchenogion preifat £0.424 miliwn a thalwyd £0.321 miliwn pellach i awdurdodau lleol am atgyweiriadau i'w hadeiladau hanesyddol eu hunain. Derbyniodd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol £0.46 miliwn gan gynnwys cymorth i gostau a gronodd wrth gynnal Castell y Waun, gwaith yng Nghastell Penrhyn (rhan o raglen eang o atgyweiriadau i'r to), Neuadd Erddig yn Wrecsam a Fferm Aberdeunant, Llandeilo.

Together with the Assembly's Housing Division, Cadw arranged a conference for local authorities to discuss how house renovation schemes could best incorporate the use of traditional materials.

Historic Buildings Grants

The continued availability of grants towards the cost of repairs to the most important of Wales's historic buildings and towards repairs of visual significance in conservation areas is a key component of the Agency's support for the heritage. In the light of consultation, Cadw has been drawing up revised arrangements for administering historic buildings grants. These will focus on priority areas, in particular on important buildings at risk of being lost, and will allow for more transparency and accountability in the decision-making process. The new arrangements should be in place in 2000-01.

During the year, 189 applications for assistance were considered and 86 grant offers made. The value of grants offered in 1999-2000 totalled £1.95 million and the total grant committed (but unpaid) at 31 March 2000 was £3.06 million.

Private owners received £0.424 million and a further £0.321 million was paid to local authorities for repairs to their own historic buildings. The National Trust received £0.46 million including assistance to costs incurred in maintaining Chirk Castle, works at Penrhyn Castle (part of an extensive programme of roof repairs), Erddig Hall in Wrexham and Aberdeunant Farm, Llandeilo.

In 1999-2000, £0.771 million was paid for work undertaken to religious buildings, including

De: Mae ty hir Llanerch-y-cawr, ar ben pellaf cronfa ddŵr Caban Coch, Powys, yn adeilad rhestradig Gradd II*, a oedd wedi mynd a'i ben iddo erbyn 1990. Mae gwaith adfer gan Ymddiriedolaeth Cwm Elan, gydag arian gan Cadw a Chronfa Treftadaeth y Loteri wedi sicrhau goroesiad i'r adeilad pwysig hwn sy'n dyddio o ddiwedda y bymthegfed ganrif.

Right: Llanerch-y-cawr longhouse, at the end of Caban Coch reservoir, Powys, is a Grade II* listed building, which had fallen into dilapidation by 1990. Restoration work by the Elan Valley Trust, funded by Cadw and the Heritage Lottery Fund, has ensured the survival of this important late fifteenth-century building.





Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cynnal rhaglen helaeth o waith atgyweirio i'r to yng Nghastell Penrhyn, Gwynedd, gyda chymorth grant gan Cadw (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol).

The National Trust is engaged in an extensive programme of roof repairs at Penrhyn Castle, Gwynedd, granted-aided by Cadw (The National Trust).

Ym 1999–2000, talwyd £0.771 miliwn am waith a wnaed ar adeiladau crefyddol, gan gynnwys Eglwys Caradog Sant, Lawrenny ac Eglwys Digain Sant, Llangernyw. Talwyd £0.151 miliwn ychwanegol am waith ar eglwysi cadeiriol yng Nghymru. Parhawyd i sianel cymorth ar gyfer eglwysi segur i Friends of Friendless Churches, sydd wedi gofalu am bedwar adeilad yng Nghymru ers peth amser. Trosglwyddodd yr Eglwys yng Nghymru bedwar adeilad arall i ofal y Cyfeillion yn ystod y flwyddyn, ac ar y cyd â Cadw, cefnogodd atgyweiriadau i sicrhau eu bod yn cael eu cadw a'u bod ar gael i'r cyhoedd. Parhaodd Cadw hefyd i ariannu swydd o fewn Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i drefnu creu corff tebyg i ofalu am adeiladau crefyddol eraill. Sefydlyd yr Ymddiriedolaeth Adeiladau Crefyddol yn ffurfiol yn ystod y flwyddyn a phenodwyd ymddiriedolwyr. Mae Cadw'n edrych ymlaen at gynorthwyo'r ymddiriedolaeth gyda gwaith ar y capeli segur mwyaf pwysig ac unrhyw adeiladau crefyddol eraill a nodir i'w gwarchod.

Mynediad i'r Cyhoedd

Mae mynediad i'r cyhoedd am ddeng mlynedd yn un o amodau grant Cadw ar gyfer adeiladau eithriadol. Mae Cadw'n cyhoeddi manylion yr adeiladau y mae wedi rhoi cymorth grant iddynt a gellir dod o hyd i fanylion cyfredol ar wefan Cadw ar <http://www.cadw.wales.gov.uk>. Mae system monitro yn ei lle a dylid dwyn achosion lle nad oes mynediad iddynt at sylw Cadw fel y gellir cymryd camau i wella hynny. Caiff niferoedd eu nodi yn Adroddiadau Blynnyddol y dyfodol.

Trefuniau Hanesyddol

Yn ystod y flwyddyn parhaodd Cadw i gynnal Cynlluniau Trefi Hanesyddol — partneriaeth rhannu cost bwysig ag awdurdodau lleol i dalu hanner costau perchenogion wrth wneud atgyweiriadau allanol cydymdeimladol i adeiladau mewn ardaloedd cadwraeth. Daeth cyfraniad Cadw i'r 34 cynllun a oedd yn gweithredu ym 1999–2000 i gyfanswm o £0.163 miliwn. Mae Cadw'n gweithio ar drefniadau newydd ar gyfer grantiau cynllun trefi a fydd yn eu galluogi i ddirprwyo llawer iawn mwy o'r gwaith gwneud penderfyniadau i awdurdodau lleol, yn amodol ar gynllun cadwraeth y cytunwyd arno. Edrychwn ymlaen at drafod cynigion gydag awdurdodau lleol yn y flwyddyn gyfredol.

Cynhwysir llawer o'r cynlluniau trefi o fewn menter Etifeddiaeth Trefuniau Cronfa Treftadaeth y Loteri, sy'n ceisio adfywio cymunedau lleol sydd wedi dirywio drwy warchod adeiladau hanesyddol a'u hailanddefnyddio. Mae Cadw wedi cynnig bod yn un o'r partneriaid ariannu yn y projectau a oedd yn llwyddiannus hyd yma — yng Nghasnewydd, Treffynnon, Bae Colwyn, Aberteifi, Doc Penfro, Llanrwst, Dinbych, Llanymddyfri a Llangadog. Y llynedd neilltuodd Cronfa Treftadaeth y Loteri a Cadw £4.2 miliwn a £0.4 miliwn fel ei gilydd i'r projectau.

Y Sector Gwirfoddol

Mae Cadw yn rhoi pwys mawr ar y cymorth y mae'n ei roi i waith y sector gwirfoddol fel ffordd o hyrwyddo diddordeb yn nhreftadaeth Cymru yn

St Caradog's Church, Lawrenny and St Digain's Church, Llangernyw. Another £0.151 million was paid for work to cathedrals in Wales. Assistance for redundant churches continued to be channelled to the Friends of Friendless Churches, which for some time has cared for four buildings in Wales. The Church in Wales transferred four further buildings to the Friends during the year and, with Cadw, supported repairs to ensure their preservation and access to the public. Cadw also continued to fund a post within the Wales Council for Voluntary Action to organize the creation of a similar body to care for other religious buildings. The Religious Buildings Trust was formally established during the year and trustees appointed. Cadw looks forward to assisting the trust with works to the most important redundant chapels and any other religious buildings identified for conservation.

Public Access

Public access for ten years is a condition of Cadw grant for outstanding buildings. Cadw publishes details of the properties it has aided and current details can be found on Cadw's web site <http://www.cadw.wales.gov.uk>. Monitoring is in place and cases in which access is denied should be brought to Cadw's attention so that remedial action can be taken. Numbers will be indicated in future Annual Reports.

Historic Townscapes

During the year Cadw maintained support for Historic Town Schemes — an important cost-sharing partnership with local authorities to meet half the owners' costs in making sympathetic external repairs to buildings in conservation areas. Cadw's contribution to the 34 schemes operating in 1999–2000 amounted to £0.163 million. Cadw is working on new arrangements for town scheme grants that will enable a much greater degree of delegation of decision-making to local authorities, subject to an agreed conservation plan. We look forward to discussing proposals with local authorities in the current year.

Many town schemes are being subsumed within the HLF's Townscape Heritage Initiative, which seeks to regenerate run-down local communities through historic building conservation and re-use. Cadw has offered to be one of the funding partners in the projects which have been successful so far — at Newport, Holywell, Colwyn Bay, Cardigan, Pembroke Dock, Llanrwst, Denbigh, Llandovery, and Llangadog. Last year the HLF and Cadw each committed £4.2 million and £0.4 million respectively to the projects.

Voluntary Sector

Cadw attaches much importance to its support for the work of the voluntary sector as a way of promoting interest in and care for Wales's



Chwith: Mae'r gwaith o adfer Tŷr Sgêr, ger Porthcawl gan yr Ymddiriedolaeth Adeiladau mewn Perygl yn dirwyn i ben. Ariannwyd y gwaith gan Cadw a Chronfa Treftadaeth y Loteri. Mewnsodiad: Tŷr Sgêr, cyn dechrau'r gwaith adfer (Michael A. Davies).

Left: Restoration work at Sker House, near Porthcawl, by the Buildings at Risk Trust is drawing to a close. The work has been funded by Cadw and the Heritage Lottery Fund. Inset: Sker House, prior to the start of restoration work (Michael A. Davies).

ogystal â gofalu amdani. Parhaodd Cadw i roi cymorth ariannol i Gymdeithas Ymddiriedolaethau Diogelu (APT), sydd wedi gwneud llawer i feithrin gwaith Ymddiriedolaethau Diogelu adeiladau ledled Cymru. Yn ystod y flwyddyn mae'r gwaith o adfer Tŷr Sgêr, ger Porthcawl, gan yr Ymddiriedolaeth Adeiladau mewn Perygl a dderbyniodd gymorth grant gan yr HLF a Cadw, bron wedi'i gwblhau. Mae Cadw wedi helpu i gefnogi cynhadledd a gynhelir gan yr APT i feithrin partneriaethau i ddatblygu cadwraeth treftadaeth adeiledig.

Rhoddyd grant o £58,000 i Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru, a gydlynodd ymateb Cymru unwaith eto i fenter Diwrnodau Treftadaeth Ewrop. Caniataodd hyn 34,000 o ymweliadau â 110 o safleoedd yng Nghymru nad ydynt fel arfer ar agor i'r cyhoedd.

Cronfa Treftadaeth y Loteri

Mae Cadw yn darparu cyngor arbenigol i Gronfa Treftadaeth y Loteri ar geisiadau sy'n ymwneud ag adeiladau hanesyddol a henebion, ac ymdriniodd â 62 o geisiadau ym 1999–2000. Hyd yma bu 21 cais yn llwyddiannus, a dyfarnwyd grantiau hefyd i lawer ohonynt o gyllideb Cadw ei hun. Mae engrheifftiau yn cynnwys Tŷ Llanerchaeron, Aberaeron; Eglwys Mihangel Sant a'r Holl Angylion, Trecolwin, ac Eglwys Elidyr Sant, Ludchurch. Yn ogystal, rhoddodd Cadw gyngor arbenigol ar geisiadau gan awdurdodau lleol i Gronfa Treftadaeth y Loteri am arian o dan y Fenter Treftadaeth Trefluniau.

heritage. Cadw maintained financial support for the Association of Preservation Trusts (APT), which has done much to foster the work of Building Preservation Trusts throughout Wales. In the course of the year the restoration of Sker House, near Porthcawl, by the Buildings at Risk Trust and grant-aided by the HLF and Cadw, neared completion. Cadw has helped to support a conference run by the APT to foster partnerships to take forward conservation of the built heritage.

A grant of £58,000 was made to the Civic Trust for Wales, which again co-ordinated Wales's response to the European Heritage Days initiative. This allowed 34,000 visits to 110 sites in Wales that are not normally open to the public.

Heritage Lottery Fund

Cadw provides expert advice to the HLF on applications involving historic buildings and monuments, and dealt with 62 applications in 1999–2000. To date 21 applications have been successful, many of which were also awarded grants from Cadw's own budget. Examples include Llanerchaeron House, Aberaeron; St Michael's and All Angels Church, Colwinston, and St Elidyr's Church, Ludchurch. In addition, Cadw provided expert advice on applications by local authorities to the HLF for funding under the Townscape Heritage Initiative.



Henebion a Safleoedd Hanesyddol

Historic Monuments and Sites

15

Amcanion

Hyrwyddor gwaith o gofnodi a gwarchod henebion drwy arfer pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol yn effeithlon i gofrestru henebion o'r fath, gweithredu gweithdrefnau caniatâd henebion cofrestredig a darparu cyngor a chymorth ariannol mewn perthynas â chynnal a chadw henebion nad ydynt o dan ofalaeth y Cynulliad Cenedlaethol.

Henebion Cofrestredig

Yn ystod y flwyddyn cwbllhawyd 121 o weithrediadau cofrestru mewn perthynas â tharged o 120. Darparodd naw deg saith y cant o'r rhain ddiogelwch ychwanegol, grym dipyn yn uwch na'r targed o 90%.

Yn ystod y flwyddyn arolygwyd yr holl henebion a nodwyd yn ystod Arolwg o Asedion Treftadaeth y Comisiwn Coedwigaeth (a ariennir gan Gronfa Treftadaeth y Loteri), a'r rhan fwyaf o'r rhai a amlygwyd yn ystod asesiad ar sail bygythiad Ymddiriedolaeth Archeolegol Cymru o aneddiadau gwledig gwag, ac fe'u diogelwyd yn statudol lle y bo'n briodol. Parhaodd safleoedd eraill i gael eu nodi fel rhan o fenter Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru i gofnodi archeoleg ucheldiroedd Cymru. Yn dilyn argymhelliaid gan Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol, nod Cadw yw sicrhau y caiff y rhan fwyaf o henebion mwy adnabyddus Cymru eu cofrestru yn ystod y saith mlynedd nesaf. Yn ystod y cyfnod hwnnw bydd Cadw yn mynd i'r afael â'r grŵp mwyaf sy'n weddill o henebion adnabyddus yng Nghymru sydd angen eu hasesu o hyd ar gyfer eu cofrestru, gan gwmpasu tua 5,000 o safleoedd cynhanevyddol (yn bennaf carneddi, cylchoedd cerrig a meinir hirion).

Lluniodd yr Asiantaeth 22 o gytundebau rheoli newydd â meddianwyr henebion i ddarparu gwaith atgyweirio priodol, rheoli a mynediad i'r cyhoedd.

Penderfynwyd ar saith deg a naw o geisiadau caniatâd henebion cofrestredig ac aeth y gyfraddi performio ar gyfer datrys yr achosion hyn — sef 88% o fewn 13 wythnos — yn sylwedol y tu hwnt i'r targed allweddol o 75%. Penderfynwyd ar naw deg a phump y cant o'r ceisiadau o fewn 17 wythnos, gan fynd y tu hwnt i'r targed o 90%. Rhoddwyd caniatâd i saith deg a naw o'r achosion y penderfynwyd arnynt o dan ddarpariaethau Gorchymyn Henebion (Caniatâd Dosbarth) 1994.

Grantiau Henebion

Gwnaed tri deg a phedwar o gynigion am gymorth grant, cyfanswm o £0.396 miliwn, i berchenogion 32 o henebion gwahanol yn ystod y flwyddyn.

Yn nodedig ymhliith y rheiny a gwblhawyd yn ystod 1999–2000 roedd gwarchod olion Hen Eglwys y Drenewydd ym Mhowys, wedi'i ategu gan grant Cadw o £100,000. Gwelodd y flwyddyn hefyd barhad rhaglen fawr o waith atgyfnerthu gwaith carreg yng Ngwaith Haearn Ynysawdre, a chynigiodd Cadw grant o tua £86,000 tuag ato.

Objectives

To promote the recording and conservation of ancient monuments through the efficient exercise of the National Assembly's powers to schedule such monuments, the operation of the scheduled monument consent procedures and the provision of advice and financial assistance in relation to the maintenance of monuments not in the guardianship of the National Assembly.

Scheduled Monuments

During the year 121 scheduling actions were completed against a target of 120. Ninety-seven per cent of these provided additional protection, significantly more than the target of 90%.

During the year all of the monuments identified during the Forestry Commission's Heritage Assets Survey (funded by the Heritage Lottery Fund), and most of those highlighted during the Welsh Archaeological Trust's threat-related assessment of deserted rural settlements, were reviewed and afforded statutory protection where appropriate. Other sites continue to be identified as part of the Royal Commission on the Ancient and Historical Monuments of Wales's initiative to record the archaeology of the Welsh uplands. Following a recommendation of the National Assembly's Audit Committee, Cadw aims to ensure that most of the better known monuments in Wales will be scheduled in the next seven years. During that period Cadw will tackle the largest remaining group of known monuments in Wales still needing to be assessed for scheduling, comprising around 5,000 prehistoric sites (mainly burial mounds, stone circles and standing stones).

The Agency entered into 22 new management agreements with occupiers of ancient monuments to provide for appropriate works of repair, management and public access.

Seventy-nine scheduled monument consent applications were determined and the rate of performance for the resolution of these cases — 88% within 13 weeks — significantly exceeded the key target of 75%. Ninety-five per cent of the applications were determined within 17 weeks, exceeding the target of 90%. Twenty of the 79 cases determined were granted consent under the provisions of the Ancient Monuments (Class Consents) Order 1994.

Ancient Monument Grants

Thirty-four offers of grant, worth a total of £0.396 million, were made to the owners of 32 separate monuments during the year.


Notable among those schemes completed during 1999–2000 was the conservation of the remains of Newtown Old Church in Powys, which was supported by a Cadw grant of some £100,000. The year also saw the continuation of a major programme of masonry consolidation at the Tondu Ironworks, Ynysawdre, towards which Cadw offered grant of some £86,000.

Chwith: Mae gêr dirwyn Rhif 2 yng Nglofa Bersham, Bersham, Wrecsam, wedi'i ddiogelu'n llawn gyda chymorth grant henebion Cadw.

Left: No. 2 winding gear at Bersham Colliery, Bersham, Wrexham, has been fully conserved with ancient monument grant-aid from Cadw.

De: Gwaith cloddio gan
Ymddiriedolaeth Archeolegol
Dyfed yn Great Castle Head,
Dale, Sir Benfro, wedi'i ariannu
gan gymorth grant gan Cadw
(Hawlfraint: Ymddiriedolaeth
Archeolegol Dyfed).

Right: Cadw grant-aided
excavations by the Dyfed
Archaeological Trust at
Great Castle Head, Dale,
Pembrokeshire (Copyright:
Dyfed Archaeological Trust).



Uchod: Cofnodi, Diogelu
a Chyflwyno Tirlun
Archaeologol Cymru —
datganiad ar y cyd a
gyhoeddwyd gan Cadw
a Chomisiwn Brenhinol
Henebion Cymru.

Above: Recording,
Preserving and Presenting
the Welsh Archaeological
Landscape — a joint
statement published by
Cadw and the Royal
Commission on the Ancient
and Historical Monuments
of Wales.



Archeoleg

Ym mis Gorffennaf 1999 cyhoeddodd Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ddatganiad ar y cyd yn amlinellu eu hymagweddau tuag at y gwaith o gofnodi, gwarchod a chyflwyno tirlun archeolegol Cymru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Yng ngoleuni'r ddogfen hon arolygodd Cadw gyda chorff ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol, sef y Bwrdd Henebion, y fframwaith y byddai'n darparu cymorth grant i'r pedair Ymddiriedolaeth Archeolegol yng Nghymru o'i fewn er mwyn cynnal asesiadau ar sail bygythiad. Mae'r gwaith o asesu aneddiadau gwledig gwag canoloesol ac ôl-ganoloesol ledled Cymru yn dirwyn i ben, ac mae'r gorau ohonynt yn y broses o gael eu cofrestru. Bydd y project mwyaf yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf yn canolbwntio ar y safleoedd angladdol a defodol cynhanesyddol sy'n hysbys yng Nghymru, a bydd y wybodaeth hon yn ei thro yn cyfrannu at y rhaglen gofrestru.

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol cynyddodd yr Asiantaeth yr arian y mae'n ei roi i Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru ar gyfer eu gwaith rheoli treftadaeth, yn arbennig y ddarpariaeth o gyngor archeolegol fel rhan o'r cynllun amaeth-amgylcheddol Cymru Gyfan newydd, sef Tir Gofal. Mae Cadw hefyd wedi rhoi cymorth grant i ddatblygu safleoedd yr ymddiriedolaethau ar y we fel ffordd o ledaenu canlyniadau projectau a ariennir gan Cadw i'r cyhoedd ehangach na'r rhai sydd wedi cael mynediad yn draddodiadol i'r wybodaeth hon.

Mewn partneriaeth â Chyfarwyddiaeth Prifffyrdd y

Archaeology

